

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r cwrs*

Mae'r cwrs hwn yn addysgu damcaniaethau economaidd sy'n esbonio ymddygiad pobl mewn cartrefi, cwmnïau, marchnadoedd a llywodraethau. Mae'n cyflwyno esboniadau economaidd amgen sy'n deillio o feysydd a gwyddorau cymdeithasol gwahanol a fydd yn galluogi myfyrwyr i lunio barn ynghylch pa ddewis sydd fwyaf addas ar gyfer pa ddiben. Hefyd, mae'r cwrs yn sicrhau bod myfyrwyr yn meithrin y sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gyflawni eu prosiect eu hunain ar bwnc y maent am wybod mwy amdano. Ar ddiwedd y cwrs, dylent fod wedi datblygu safbwynt mwy beirniadol o'r byd economaidd-gymdeithasol ac ariannol y maent yn byw ynddo.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech:

- feddu ar brofiad o addysgu microeconomeg
- ymddiddori mewn dulliau rhyngddisgyblaethol
- meddu ar brofiad o (neu'r potensial i) gefnogi ac asesu prosiectau myfyrwyr
- bod yn weddol gyfarwydd â phe cynnau cyfrifiadur a'r rhyngwyd
- bod yn barod i ddefnyddio'r rhyngwyd i dderbyn, asesu a dychwelyd gwaith cwrs ac i roi cymorth i fyfyrwyr.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- arbenigedd mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: economeg amgylcheddol, cyllid, econometreg, technegau cyfweld.

Gwybodaeth ychwanegol

- Ni fydd y cwrs hwn yn cynnwys addysgu wyneb yn wyneb. Bydd yn ofynnol i diwtoriaid gefnogi myfyrwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) Y Brifysgol Agored – megis fforymau.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	6
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.